# Monmouthshire Select Committee Minutes

**Meeting of Pwyllgor Craffu Pobl held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 10fed Awst, 2023 at 10.00 am**

| **Councillors Present** | **Officers in Attendance** |
|---|---|
| County Councillor Sue Riley (Chair)<br>County Councillor (Vice Chair)<br><br>County Councillors: Fay Bromfield, John Crook, Simon Howarth, Penny Jones, Maureen Powell, Maria Stevens, Jackie Strong, Louise Brown, Martyn Groucutt, Jan Butler, Ian Chandler, Lisa Dymock, Richard John, Paul Pavia and Ann Webb<br><br>Also in attendance County Councillors: Martyn Groucutt, Cabinet Member for Education, Jan Butler, Ian Chandler, Cabinet Member for Social Care, Safeguarding and Accessible Health Services, Lisa Dymock, Richard John, Paul Pavia and Ann Webb | Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu<br>Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu<br>Clare Morgan, Rheolwr Gwasanaeth, Anabledd a Iechyd Meddwl Pob Oedran<br>Jane Rodgers, Pennaeth Gwasanaethau Plant<br>Cath Saunders, Arweinydd Rhaglen Strategol – Ysgolion 21ain Ganrif<br>Nikki Wellington, Rheolwr Cyllid<br>Joanne Chase, Cyfreithiwr a Phennaeth Cyfraith Fasnachol<br>Jenny Jenkins, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br>Deb Hill-Howells, Pennaeth Gwasanaethau Landlord Masnachol ac Integredig<br>Becky Pritchard, Swyddog Trafnidiaeth |

**APOLOGIES:** County Councillor Christopher Edwards

1. **Datganiadau o Fuddiant**

   Dim.

2. **10.00am Fforwm Agored i'r Cyhoedd ar Bolisi Cludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol**

   Codwyd y materion canlynol:

   - Soniodd Cynghorydd Cymuned yn cynrychioli Cyngor Cymuned Matharn am sut mae'n rhaid i blant o'r ardal leol gerdded gydag oedolion gyda nhw ar y daith i'r ysgol ar hyd y llwybr cul ger yr A48 Pwllmeurig, gan fod cymaint o draffig fel na allai bysus ysgol fynd trwodd. Roedd y cynrychiolydd yn bryderus am agwedd iechyd a diogelwch y llygredd o draffig ar hyd y ffordd hon. Dywedwyd na fedrai rhai plant aros yn yr ysgol am weddill y diwrnod ysgol oherwydd pen tost fel canlyniad i'r cerdded.

   - Roedd menyw wedi gofyn am ymuno â'r cyfarfod ar gyfer y Fforwm Agored i'r Cyhoedd ond roedd wedi cael problemau yn ymuno â'r cyfarfod ond mae wedi anfon cyfraniad ysgrifenedig yn amlinellu pryderon am eiriad y polisi yng nghyswllt ysgolion ffydd. Anfonwyd y cyfraniad at yr Aelod Cabinet dros Addysg

ac mae Aelodau uchod wedi cyfeirio at y pwyntiau allweddol, i'r Aelod Cabinet roi ystyriaeth iddynt.

Diolchodd y Cadeirydd i'r siaradwyr am fynychu a siarad dan y Fforwm Agored i'r Cyhoedd i gynorthwyo'r Pwyllgor gyda'u trafodaethau.

3. **10.15am Craffu ar y Polisi Cludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Martyn Groucutt yr adroddiad gyda Debra Hill-Howells. Atebodd Debra Hill-Howells gwestiynau'r aelodau gyda'r Cynghorydd Groucutt a Becky Pritchard.

**Pwyntiau allweddol a godwyd gan aelodau'r Pwyllgor:**

Cododd y Pwyllgor y materion dilynol i'r Aelod Cabinet eu hystyried :

- Mynegwyd pryder am y geiriad yn y polisi yn ymwneud ag ysgolion ffydd a chytunodd Aelodau fod angen i'r geiriad roi ystyriaeth i neges e-bost gan aelod o'r cyhoedd am y mater hwn, roedd angen i'r geiriad gynnwys y geiriau 'yr ysgol ffydd addas agosaf' i sicrhau y byddai'n addas ar sail ffydd.

- Mewn ymateb, cadarnhaodd swyddogion na fydd y newidiadau ar ochr addysg ffydd polisi 2024/25 yn cael unrhyw effaith ymarferol ar gymhwyster cyfredol a chymhwyster y dyfodol cludiant am ddim i ysgolion ffydd ac na fyddir yn effeithio ar unrhyw un sy'n derbyn cludiant ffydd, a chroesawyd hynny gan Aelodau.

- Mewn ymateb i bryderon gan Aelod, cytunodd swyddogion i newid y geiriad ar y paragraff yn cyfeirio at y llwybrau cerdded sydd ar gael i fod yn gydnaws gyda'r Mesur Teithio Dysgwyr ac i dynnu'r paragraff sy'n sôn am 'digon peryglus' a rhoi'r geiriad canlynol yn lle "Os bernir nad yw'r llwybr i'r ysgol yn ddiogel, yna ni fedrir disgwyl i'r dysgwr gerdded i'r ysgol, er fod y pellter rhwng y cartref a'r ysgol yn llai na'r terfyn pellter sy'n weithredol oedran y dysgwr mewn amgylchiadau o'r fath, mae gan y dysgwr hawl i gludiant am ddim."

- Mynegodd rhai Aelodau bryder am y newid yn y cyfnod hysbysiad ar gyfer dileu cludiant. Cytunodd swyddogion i ymchwilio adrannau cyfreithiol y ddyletswydd i asesu Anghenion Teithio Dysgwyr ym Mesur Teithio Dysgwyr (Cymru) 2008. Ymddengys fod Mesur Teithio Dysgwyr (2008) yn dangos asesiad ar gyfer disgyblion unigol bob blwyddyn academaidd ar gyfer y flwyddyn academaidd ganlynol. Mae hyn yn golygu er bod y cyfnod hysbysu ym mholisi 2023/24 yn cydymffurfio â'r ddyletswydd gyfreithiol hon, nid yw'n cydymffurfio gyda dyletswydd gyfreithiol yng nghyswllt y drafft bolisi ar gyfer 2024/25, gan fod cyfnod hysbysiad byrrach yng nghanol y flwyddyn academaidd.

- Mynegwyd pryder am ddiogelu ar fysus cyhoeddus gyda risg ychwanegol cynyddu'r defnydd o fysus cyhoeddus yn 2024/25 o'r defnydd cyfyngedig iawn a wneir ohonynt ar hyn o bryd. Dywedodd swyddogion fod teledu cylch cyfyng mewn bysus ac y cedwir y lluniau am 14 diwrnod fel y gellid adolygu unrhyw gwynion.

- Cododd Aelod ar ymweliad bryder am argaeledd lleoedd ac na fedrid dibynnu ar gwmni bws cyhoeddus, gyda swyddogion yn dweud na fedrent roi sylw ar dendrau/contractau unigol. Cadarnhaodd swyddogion hefyd eu bod yn trefnu patrol croesiad ysgol yn ardal yr Aelod.

- Mynegwyd consyrn i sicrhau y gweithredid Mesur Diogelwch ar Gludiant Dysgwyr (Cymru) 2011 i fysus cyhoeddus, yn cynnwys yr angen i gael gwregys ar bob sedd a'r gofynion angenrheidiol ar hyfforddiant gyrwyr.

- Gofynnwyd am eglurhad os mai dim ond ar gyfer disgyblion uwchradd ac nid disgyblion cynradd y defnyddid bysus cyhoeddus, gan nad oedd geiriad drafft bolisi 2024/25 yn glir yn hyn o beth.

- Mynegwyd pryder am wiriadau DBS. Soniodd Aelodau am yr angen am wiriadau DBS ar yrwyr bysus cyhoeddus o fewn y Sir, gan gydnabod fod rhai bysus cyhoeddus yn croesi ffiniau sirol.

**Canlyniad Ffurfiol y Craffu:**

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu mewnbwn a'r cyhoedd am fod yn bresennol a'u cyfraniad gwerthfawr. Diolchodd hefyd i'r Aelodau Cabinet a Swyddogion am eu cyfraniad a daeth i'r casgliad:

Awgrymodd y Pwyllgor ddiwygiadau i ddrafft bolisi 2024/25 a gofynnodd i'r Aelod Cabinet roi ystyriaeth lawn i bryderon Aelodau a'i gynnwys yn y diwygiadau arfaethedig. Gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion canlynol i'r Aelod Cabinet:

1. Bod yr Aelod Cabinet yn rhoi ystyriaeth i'r neges e-bost gan yr aelod o'r cyhoedd yn rhoi sylw i bryderon am ysgolion ffydd wrth wneud penderfyniad ar bolisi drafft 2024/25 a diwygiadau iddo. Cyfeiriodd y Pwyllgor at ei bryder am yr angen am eglurhad ar gludiant ffydd. Mae Aelodau'n gofyn bod y polisi yn darllen fel 'cludiant ffydd i'r ysgol addas agosaf' gydag addasrwydd ar sail ffydd rhieni dysgwyr, hyd yn oed os nad yw hynny o'r un ffydd neu enwad a/neu ar sail meini prawf derbyn ffydd ysgolion.

2. Diwygio'r polisi drafft ar gyfer 2024/25 i'w wneud yn gydnaws gyda Mesur Teithio Dysgwyr Cymru ar lwybr cerdded diogel. Gofynnodd Aelodau hefyd am

ymchwiliad cyfreithiol ar y cyfnod hysbysiad i ddileu'r cynnig o gludiant ysgol i ganfod os yw'n fwy cydnaws gyda'r polisi cyfredol ar gyfer 2023/24.

3. Gwneud diwygiadau i'r polisi drafft ar gyfer 2024/25 i egluro mai dim ond i ddisgyblion oedran uwchradd ac nid disgyblion oedran cynradd y caiff cyrff cyhoeddus eu defnyddio.

4. Bod defnydd bysus cyhoeddus ar gyfer cludiant ysgol, tebyg i fysus ysgol neilltuol, yn cydymffurfio gyda Mesur Diogelwch ar Gludiant Dysgwyr (Cymru) 2011, sy'n cynnwys gwregysau sedd unigol a hyfforddiant gyrwyr. Gwnaed argymhelliad ychwanegol fod gyrwyr yn destun monitro gwiriadau DBS mewnol gan Gyngor Sir Fynwy.

5. Bod gan bob bws ysgol a bws cyhoeddus a ddefnyddir ar gyfer cludiant ysgol i ac o fannau addysg, cyn ac ar ôl yr ysgol., deledu cylch cyfyng ac y cedwir y lluniau am 14 diwrnod i helpu monitro pryderon/cwynion yn nhermau diogelu, yn arbennig oherwydd y gall aelodau o'r cyhoedd deithio ar bysus cyhoeddus.

## 4. 11.00am Galw i mewn benderfyniad y Cabinet ar 26 Gorffennaf 2023 yng nghyswllt cytundeb A106 ar gyfer Cil-y-coed

Esboniodd y Pwyllgor Craffu y broses Galw Mewn fel y'i hamlinellir yng Nghyfansoddiad y Cyngor. Siaradodd y Cynghorydd Dymock fel yr Arweinydd Galw Mewn, gan roi manylion y rhesymau dros alw'r penderfyniad i mewn, fel y nodir yn y cais Galw Mewn. Ymatebodd yr Aelod Cabinet Martyn Groucutt i bwyntiau'r galw mewn a rhoddodd Joanne Chase, Dirprwy Swyddog Monitro eglurhad ar gyfreithlondeb cytundeb Adran 106. Atebwyd cwestiynau aelodau gan y Cynghorydd Groucutt, Joanne Chase a Cath Saunders.

**Pwyntiau allweddol a godwyd gan Aelodau:**

- Holodd Aelod os yw'n rhaid gwario arian Adran 106 yn yr ardal leol. Cadarnhaodd y Dirprwy Swyddog Monitro y gallai ysgolion o fewn y clwstwr gael budd, fel y nodir yn y cytundeb Adran 106 a bod hyn yn gyfreithlon.

- Trafododd Aelodau nifer y disgyblion yn yr ysgolion dan sylw: Ysgol Gynradd Parc Castell gyda 190 o ddisgyblion gyda lle ar gyfer 210 disgybl, ac Ysgol yr Archesgob Rowan gyda 206 o ddisgyblion gyda lle ar gyfer 210 o ddisgyblion.

- Awgrymodd rhai Aelodau y byddai'r Ysgol Archesgob Rowan yn cael mwy o fudd o'r arian Adran 106 a byddai ag angen lliniaru lleol a bod y penderfyniad yn afresymegol. Teimlai Aelod arall, oherwydd fod yr ysgolion yn agos at ei gilydd, y gellid defnyddio'r arian i sicrhau budd ar unwaith ar gyfer Ysgol Parc Castell ac awgrymodd y gellid defnyddio arian ar ddyddiad yn y dyfodol ar gyfer Ysgol Archesgob Rowan.

- Dywedodd Swyddogion mai mater amseriad yw hyn ac y gellir sicrhau'r arian a geir o fewn yr amserlen, gan y caiff cytundebau eu llunio yn hir cyn i'r arian ddod i law. Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet y byddai'r ail drosglwyddiad arian o Heol yr Eglwys yn mynd i Ysgol Archesgob Rowan.

**Canlyniad Ffurfiol Craffu:**

Yn dilyn trafodaeth sylweddol sydd ar gael drwy'r ffrwd byw, symudodd y Pwyllgor i bleidlais:

Cytunodd pedwar Aelod i dderbyn penderfyniad yr Aelod Cabinet.

Cytunodd pump Aelod i gyfeirio'r penderfyniad i'r Cyngor llawn, a'r rhesymau a nodwyd oedd ei fod yn annheg i Ysgol Archesgob Rowan a chymuned Porthsgiwed.

Cariwyd y penderfyniad i gyfeirio'r mater i'r Cyngor.

5. **12.00 canol-dydd EGWYL**

6. **12.30pm Fforwm Agored i'r Cyhoedd ar Adroddiad Darpariaeth Seibiant**

Cafwyd cyfraniadau ysgrifenedig cyn y cyfarfod a chawsant eu rhannu gyda phawb a fynychodd. Dywedodd cyfraniad sut y teimlai'r teulu iddynt gael eu siomi gan y Cyngor yn nhermau'r cynigion i gau Budden Crescent a sut na fyddai darpariaeth seibiant arall yn diwallu eu hanghenion. Mae cyfraniad ysgrifenedig gan ddefnyddiwr gwasanaeth arall yn amlygu pwysigrwydd y gwasanaeth iddi hi a'i pherthynas. Cafodd cyfraniad ysgrifenedig gan academydd hefyd ei gylchredeg i Aelodau a mynychodd menyw oedd wedi anfon cyfraniad ysgrifenedig y cyfarfod a siaradodd ar ran ei theulu, yn esbonio sut mae'r gwasanaeth a ddarperir ar hyn o bryd yn Budden Crescent yn diwallu anghenion ei theulu ac y byddent yn ei chael yn anodd iawn hebddo.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau ac am gynorthwyo'r Pwyllgor gyda'i graffu.

7. **1.00pm Craffu ar yr Adroddiad Darpariaeth Seibiant**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Ian Chandler. Rhoddodd Jane Rodgers gyflwyniad. Cynigiodd y Cynghorydd Strong ei safbwynt fel yr Aelod Ward lleol dros Budden Crescent. Atebwyd cwestiynau aelodau gan y Cynghorydd Chandler, Jane Rodgers, Jenny Jenkins a Clare Morgan.

**Pwyntiau allweddol a godwyd gan Aelodau Pwyllgor:**

Cydnabu'r Pwyllgor ymroddiad y grŵp staff a safon uchel y gofal a'r cymorth a ddarparodd y gwasanaeth seibiant yn Budden Crescent i bobl gydag anabledd dysgu a'u gofalwyr am flynyddoedd lawer. Roedd gwahaniaeth barn yn y pwyllgor am y cynigion a ddaeth gerbron y Pwyllgor Craffu, ond mae'r canlynol yn cynnig pwyntiau allweddol i'w hystyried gan y Weithrediaeth:

- Dywedodd rhai aelodau nad yw'r adroddiad yn amlinellu yr ystod llawn o gyfleoedd seibiant sydd ar gael ar draws y sir.

- Mynegwyd rhai pryderon am y data ac os oes gennym ddarlun cywir o'r galw am y gwasanaeth, ar hyn o bryd a hefyd yn y dyfodol.

- Dywedodd rhai aelodau na ddylai lefelau is o ddefnydd fel canlyniad i'r pandemig fod yn gyfiawnhad i ddileu gwasanaethau.

- Er bod cefnogi pobl yn bwysig iawn, cydnabu aelodau os yw'r galw am y gwasanaethau a gynigir yn Budden Crescent wedi gostwng, na fedrid anwybyddu'r goblygiadau cost, gan gydnabod ei fod yn gadael llai o arian ar gael i ddarparu mathau eraill o seibiant.

- Teimlai rhai aelodau y gall fod yn fyrbwyll i ddibynnu ar gyfleusterau a ddarperir gan awdurdodau lleol, o gofio'r cynnydd yn y boblogaeth henoed a nododd yr angen am ddarpariaeth seibiant yn y sir.

- Mynegwyd pryderon am allu darpariaeth seibiant arall i ymateb i argyfyngau a pha mor hyblyg a fyddai'r trefniadau eraill a gynigid yn medru diwallu'r anghenion hynny.

- Holodd Aelodau os gallai Budden Crescent weithredu model seibiant ehangach i ddarparu ar gyfer pobl yn dioddef gyda dementia neu anabledd dysgu ac os y byddai hyn yn gwneud y gwasanaeth yn ariannol hyfyw. Clywodd Aelodau y byddai'n anodd iawn staffio hyn, gan y byddai angen gwahanol sgiliau gofal ar gyfer pobl gyda gwahanol gyflyrau iechyd. Fodd bynnag, mae Aelodau'n gwybod fod Centrica Lodge yng Nghasnewydd yn gweithredu model seibiant ehangach, gan ddarparu ar gyfer gofal pobl oedrannus, anableddau dysgu, cyflyrau iechyd meddwl ac oedolion iau. Holodd Aelodau felly pam na all Sir Fynwy arallgyfeirio i ddiwallu nifer o anghenion gofal ac awgrymwyd fod hyn yn rhywbeth y dylai'r Weithrediaeth ei ymchwilio. Soniwyd hefyd am bosibilrwydd safle rhanbarthol, gan gydnabod fod awdurdodau eraill yn wynebu heriau tebyg.

- Roedd gwahaniaeth barn am yr adolygiad, credai rhai aelodau fod angen adolygiad annibynnol ond dywedodd eraill ei fod yn adroddiad trylwyr.

**Canlyniad Ffurfiol y Craffu:**

Gwaeth y Pwyllgor yr argymhellion canlynol:

1. Os yw'r Weithrediaeth yn cau Budden Close, ei fod yn cynnal adolygiad llawn o'r opsiynau seibiant, gan fod mwyafrif yr opsiynau yn anhyfyw ar hyn o bryd ar gyfer rhai gydag anghenion cymhleth sydd angen gofal 24/7. Mae'r Pwyllgor yn gofyn i'r Weithrediaeth sicrhau fod mathau arall o gymorth seibiant a 'rhannu bywyd' ar gael i bobl ac yn rhoi'r lefel briodol o ofal a chymorth ar gyfer pob unigolyn sy'n derbyn seibiant.

2. Bod y Weithrediaeth yn sicrhau fod gwasanaethau cymdeithasol yn ymwneud yn helaeth â'r teuluoedd sy'n anhapus am yr argymhelliad i gau Budden Crescent i ddarparu gofal a chymorth mwy dwys a'u cefnogi ac i weld sut y gellir diwallu eu hanghenion.

**8. <u>Cadarnhau mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd 5 Hydref 2023</u>**

The meeting ended at **2.40 pm**